Cael trafferth darllen y cylchlythyr yma? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin
gweinyddiaeth etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol

Rhifyn 182 (Cymru) - 27 Ebrill 2017

Cynnwys

Etholiadau Mai 2017: Neges gan y Comisiwn

Pob lwc gan y Comisiwn.

Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017: Y diweddaraf ar gyhoeddi canllawiau ac adnoddau cefnogol

Gwybodaeth ar y canllawiau ac adnoddau cefnogol sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: llawlyfr gorsaf bleidleisio a chanllawiau cyflym

Eich atgoffa i gwblhau eich archebion ar gyfer llawlyfrau gorsaf bleidleisio a chanllawiau cyn 2 Mai, gwybodaeth pryd i ddisgwyl danfon a dolenni i'r fersiynau PDF.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: diweddariad ymwybyddiaeth y cyhoedd

Trosolwg o ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd y Comisiwn.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: y diweddaraf ar enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Gwybodaeth ar enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau

Etholiadau Mai 2017: Neges gan y Comisiwn

Ry'ch chi a'ch staff wedi bod yn gweithio'n galed iawn i baratoi at yr etholiadau sy'n cael eu cynnal ledled Cymru wythnos nesaf, ac roeddem am gymryd y cyfle i ddymuno pob lwc i chi ar gyfer y diwrnod pleidleisio a'r cyfrif. Bydd mwy o fanylion ynghylch sut i gysylltu â ni ar y diwrnod pleidleisio yn y Bwletin wythnos nesaf.

Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017: Y diweddaraf ar gyhoeddi canllawiau ac adnoddau cefnogol

Fel nodwyd ym Mwletin 181, ry'n ni eisoes wedi cyhoeddi'r amserlen etholiadol a'n holl ganllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol), ac ymgeiswyr ac asiantiaid ym Mhrydain Fawr.

Ry'n ni hefyd wedi cyhoeddi nodyn canllaw byr i fynd i'r afael â heriau paratoi ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU ar 8 Mehefin 2017, gan gynnwys ystyriaethau ar gyfer yr holl Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yng Nghymru sydd hefyd ag etholiadau lleol ar 4 Mai 2017. Mae'r nodyn canllaw hefyd ar gael yn yr adran adnoddau o dan Rhan B ar ein tudalen canllawiau i Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Mae anodau cefnogol ar gael ar ein gwefan i Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o dan pob rhan o ganllawiau.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: archebion ar gyfer llawlyfr gorsaf bleidleisio a chanllawiau cyflym

Dylech fod wedi derbyn e-bost gyda dolen i'r ffurflen archebu ar-lein ar gyfer llawlyfrau gorsaf bleidleisio a chanllawiau cyflym ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU ar 8 Mehefin.

Y dyddiad olaf i gwblhau'r ffurflen archebu ar-lein yw dydd Mawrth 2 Mai.

Byddant yn cychwyn cael eu hanfon ddydd Llun 8 Mai a dylent fod gyda chi fan pellaf erbyn diwedd yr wythnos honno; os na fyddwch wedi derbyn eich archeb erbyn dydd Mawrth 16 Mai, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk neu ffoniwch 0333 103 1929.

Ry'n ni'n gwybod fod hyn yn derfyn tynn iawn i roi'ch archeb, yn arbennig gan fod gennych oll etholiadau ym mis Mai, ond i sicrhau anfon y llawlyfrau a'r canllawiau cyflym o 8 Mehefin, mae angen i ni fod wedi derbyn yr archebion erbyn y dyddiad yma. Yn anffodus, ni allwn sicrhau danfon yr adnoddau ar gyfer unrhyw archeb a dderbynnir ar ôl 2 Mai.

Nodwch, unwaith i chi gyflwyno'ch ffurflen archebu, ni fyddwch yn gallu newid yr archeb eich hun. Os bydd angen i chi newid eich archeb, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk neu ffoniwch 0333 103 1929.

Mae fersiwn PDF o'r llawlyfr a'r canllaw cyflym ar gael ar ein gwefan. Mae'r adnoddau hyn ar gael yn yr adran adnoddau o dan Rhan C ar ein tudalen canllawiau i Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: diweddariad ymwybyddiaeth y cyhoedd

Bydd y Comisiwn yn cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU, fydd yn landio ddydd Llun 8 Mai ac yn cael ei redeg am bythefnos nes y dyddiad cau cofrestru pleidleiswyr ddydd Llun 22 Mai.

Bydd yn canolbwyntio ar gofrestru etholiadol, a bydd hysbysebu yn cael ei gynnal ar y teledu, radio, digidol, cymdeithasol, gyda fersiwn wedi'i ail-greu o 'Beth?' Hysbyseb teledu a deunydd creadigol 'Allwch chi ddim pleidleisio'. Byddwn yn cynnal ymgyrch hysbysebu digidol penodol ar gyfer pleidleiswyr sy'n byw tramor yn ogystal â phersonél y lluoedd arfog sydd wedi'u lleoli tu allan i'r DU.

Byddwn hefyd yn darparu nifer o adnoddau digidol i awdurdodau lleol a phartneriaid rannu i ledaenu'r neges. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu drwy ein cylchlythyr y Gofrestr yn yr wythnos cyn i'r ymgyrch lansio, a bydd ar gael ar dybleidlaisdi.co.uk

Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn ein rhifyn nesaf o'r Bwletin, a bydd diweddar diweddariadau am ein hymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gael drwy'r Gofrestr. Os nad ydych wedi tanysgrifio, gallwch wneud yma.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â partners@electoralcommission.org.uk

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: y diweddaraf ar enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Mae Rhan C o'n canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yn nodi beth mae'r ddeddfwriaeth yn ei ddarparu o ran newidiadau, dileadau ac ychwanegiadau o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau.

pleidiau o ran etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Hysbysiadau gwrthod dynodyddion pleidleisiau post

Canllawiau ar roi hysbysiadau ar ôl etholiadol Mai 2017.

Etholiadau Mai 2017: casglu data ar ôl yr etholiad

Dolenni i ffurflenni a chanllawiau ar gyfer cyflwyno data yn dilyn etholiadau mis Mai.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma.

Gallwch hefyd danysgrifio i'n *cylchlythyr Gweinyddiaeth Etholiadol*.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Oherwydd y byr rybudd cyn etholiad 8 Mehefin, ry'n ni'n annhebygol o brosesu unrhyw newidiadau, dileadau neu ychwanegiadau i enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau cyn 9 Mai. Efallai fodd bynnag y byddwn yn gwneud newidiadau lle bo'r ceisiadau yn mynd rhagddynt eisoes.

Fel y gwnaethom cyn etholiadau mis Mai, byddwn yn paratoi rhestr o'r newidiadau a wnaed i enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau drwy'r Bwletin a byddwn yn eich cynghori o unrhyw bleidiau newydd a ychwanegir i'r gofrestr. Byddwn hefyd yn cynnwys rhestr o bleidiau dadgofrestredig, ac o unrhyw geisiadau llwyddiannus i ail-gofrestru gan bleidiau sydd wedi'u dadgofrestru.

Hysbysiadau gwrthod dynodyddion pleidleisiau post

Fel nodir yn Rhan 5 canllawiau'r Comisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, mae deddfwriaeth yn gofyn, lle bo pleidleisiwr absennol yn ymddangos ar y rhestr o bapurau pleidleisio post a wrthodwyd, eich bod yn rhoi gwybod i'r etholwr neu'r dirprwy drwy'r post, o fewn tri mis bod eu papur pleidleisio post wedi'i wrthod gan nad oedd y Swyddog Canlyniadau yn fodlon bod y datganiad pleidleisio post wedi'i gwblhau'n gywir.

Os ydych wedi anfon gwrthodiad ar sail nad oedd y llofnod a ddarparwyd ar y datganiad pleidleisio post a ddychwelwyd yn debyg i'r esiampl ar y cofnod o ddynodyddion personol (a bod y person yn parhau i fod ar eich cofnodion fel pleidleisiwr absennol), gallwch ofyn bod y pleidleisiwr absennol yn darparu llofnod newydd ar gyfer y cofnod dynodyddion personol, ellid ei wneud ar yr un pryd a'ch bod yn anfon yr hysbysiad gwrthod atynt.

Lle bo gofyn i'r pleidleisiwr absennol ddarparu llofnod newydd i chi, mae'n rhaid i chi roi gwybod iddynt o'r dyddiad (chwe wythnos o ddyddiad yr hysbysiad) lle na fydd hawl ganddynt bleidleisio drwy'r post os ydynt yn methu â neu'n gwrthod darparu llofnod newydd. Os nad ydynt wedi ymateb i'r hysbysiad o fewn tair wythnos o'r dyddiad yr anfonwyd, mae'n rhaid i chi anfon nodyn atgoffa sy'n gopi o gynnwys yr hysbysiad gwreiddiol.

Mae anfon hysbysiadau gwrthod dynodyddion personol pleidleisiau post yn fuan wedi pleidlais yn helpu sicrhau bod pleidleiswyr, y gwnaeth eu dynodyddion ddim cyfateb, yn gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn pleidleisiau yn y dyfodol, a bod eu pleidlais bost ddim yn cael ei wrthod mewn etholiadau yn y dyfodol, oherwydd dirywiad llofnod neu gan eu bod yn gwneud camgymeriadau heb yn wybod. Fodd bynnag, mae'r amser byr iawn rhwng etholiadau mis Mai 2017 ac etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin yn cyflwyno her arbennig i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fydd yn dylanwadu ar eu penderfyniad o ran pa gamau i'w cymryd.

Pleidleisiau Mai 2017

Gan adeiladu ar y canllawiau a roddwyd cyn etholiadau Mai 2016 a Refferendwm yr UE, mae'r Comisiwn Etholiadol a'r AEA unwaith eto wedi bod yn ystyried ymdriniaethau posibl i reoli'r broses gwrthod dynodyddion pleidlais bost i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n penderfynu anfon yr hysbysiadau mewn pryd i helpu

sicrhau arweiniodd at wrthod ym mis Mai, ddim yn cael ei wneud eto ym mis Mehefin.

Drwy nodi'r amser mwyaf priodol i roi hysbysiadau, mae'n angenrheidiol ystyried yr amser fydd ei angen i baratoi i roi'r hysbysiadau, y gofynion deddfwriaethol o gwmpas amseriad rhoi hysbysiadau o'r fath a chanslo trefniadau pleidleisio post, a'r amseriad ar gyfer danfon pleidleisiau post ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU. Os, er enghraifft, bod hysbysiadau gwrthod dynodyddion personol ar gyfer etholiadau Mai 2017, ynghyd ag unrhyw ofyniad am lofnod newydd, yn cael eu dyddio a'u rhoi yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 8 Mai, dylai hyn olygu na fydd angen anfon unrhyw hysbysiadau atgoffa hyd nes bod y swp cyntaf o bleidleisiau post ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU wedi'i gwblhau. Bydd y chwe wythnos lle bo rhaid darparu llofnod newydd hefyd yn syrthio ar ôl etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Lle caiff llofnod newydd ei ddarparu, mae'n weithredol ar unwaith: nid oes rhaid i'r llofnod gael ei dderbyn erbyn 5pm un ar ddeg diwrnod gwaith cyn yr etholiad i fod yn weithredol yn yr etholiad yna. Fodd bynnag, lle darperir llofnod newydd ar ôl i'r datganiad pleidlais bost ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU gael ei benderfynu, ni ellir newid y penderfyniad yna. Felly, os ydych yn anfon yr hysbysiadau allan cyn yr etholiad cyffredinol Senedd y DU, bydd angen i chi sicrhau bod y rhestr o ddynodyddion pleidleiswyr absennol gael ei ddiweddaru'n brydlon pan fo llofnodion newydd yn cael eu derbyn, a bod y wybodaeth hon yn cael ei darparu mewn modd amserol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). I alluogi adnabod llofnodion newydd yn gyflym, gellid marcio'r amlenni dychwelyd a ddarperir i'r etholwyr hynny y mae gofyn iddynt ddarparu llofnod newydd fel eu bod yn gallu eu gwahaniaethu'r hawdd wrth y post arall. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol printio'r ffurflen bydd yr etholwr yn ei defnyddio r bapur lliw gwahanol fel eu bod yn amlwg; fodd bynnag, byddai angen i chi sicrhau bod lliw'r papur ddim yn effeithio ar sganio'r llofnod newydd.

Mae geiriad posibl i'w ddefnyddio ar yr hysbysiadau hyn i ddangos bod amgylchiadau arbennig etholiadau Mai 2017 ac etholiad cyffredinol Senedd y DU sy'n annog dychwelyd llofnodion newydd yn brydlon a hefyd yn dangos na fydd pawb y mae eu pleidlais bost yn cael ei gwrthod yn etholiadau Mis Mai yn gymwys i bleidleisio drwy'r post yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ar gael ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn diweddaru ein Cwestiynau Cyffredin ar hysbysiadau gwrthod pleidleisiau post i'ch cefnogi chi a'ch staff yn ymateb i unrhyw ymholiadau gan etholwyr sydd wedi derbyn hysbysiad erbyn 2 Mai, a byddwn yn cadarnhau gyda chi mewn Bwletin yn y dyfodol pan fo'r Cwestiynau Cyffredin wedi'u cyhoeddi.

Etholiadau Mai 2017:casglu data ar ôl yr etholiad

Etholiadau Mai 2017:casglu data ar ôl yr etholiad

Ry'n ni bellach wedi cyhoeddi ein ffurflen casglu data ar gyfer etholiadau Mai 2017, sy'n cynnwys datganiad statudol o ran pleidleisiau post yn ogystal â cheisiadau ar gyfer data ychwanegol.

Mae'r ffurflen casglu data ar gael o dan adran adnoddau Rhan F ein canllawiau i Swyddogion Canlyniadau, neu yma.

Mae'r nodyn canllaw yn rhoi gwybodaeth o ran beth ddylid ei ddychwelyd ac i ble. Dylid anfon datganiadau o ran pleidleisiau post a ffurflen data ychwanegol at research@electoralcommission.org.uk. Dylid anfon datganiadau lleol o ganlyniadau at Colin Rallings yn elections@plymouth.ac.uk.

Dychwelwch yr holl ffurflenni **cyn gynted ag y gallwch.** Fodd bynnag, ry'n ni'n gwybod y byddwch yn brysur yn dilyn etholiadau mis Mai gyda pharatoadau ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU. **Y dyddiad olaf ar gyfer dychwelyd data o ran etholiadau Mai felly yw dydd Gwener 23 Mehefin.**

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru

Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Ffôn: 0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2017© Y Comisiwn Etholiadol 2017